

Agenda – Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Lleoliad: I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:
Ystafell Bwyllgora 1 – Y Senedd Gareth Williams
Dyddiad: Dydd Llun, 10 Rhagfyr 2018 Clerc y Pwyllgor
Amser: 14.30 0300 200 6362
SeneddMCD@cynulliad.cymru

- 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datganiadau o fuddiant**
14.30
- 2 Bil Deddfwriaeth (Cymru): Tystiolaeth gan y Cwnsler Cyffredinol:
Sesiwn dystiolaeth 1**
14.30 (Tudalennau 1 – 25)
Jeremy Miles AC, Cwnsler Cyffredinol
Dylan Hughes, Prif Gwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru
Dr James George, Cwnsler Deddfwriaethol, Llywodraeth Cymru
Claire Fife, Cynghorwr Polisi i'r Cwnsler Cyffredinol, Llywodraeth Cymru

[Bil Deddfwriaeth \(Cymru\)](#)
[Memorandwm Esboniadol](#)
[Tacsonomeg Drafft ar gyfer Codau Cyfraith Cymru](#)

CLA(5)–32–18 – Papur briffio
CLA(5)–32–18 – Crynodeb gan y Gwasanaeth Ymchwil
CLA(5)–32–18 – Papur 56 – Gohebiaeth â Ysgrifennydd Gwladol Cymru
- 3 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad
arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3**
15.30 (Tudalennau 26 – 27)
CLA(5)–32–18 – Papur 1 – Offerynnau statudol sydd ag adroddiadau clir



Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

- 3.1 SL(5)287 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) 2018

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

- 3.2 SL(5)290 – Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Addasiad Ynysoedd Scilly) 2018

4 Offerynnau sy'n cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt i'r Cynulliad o dan Reol Sefydlog 21.2 neu 21.3

Offerynnau'r Penderfyniad Negyddol

- 4.1 SL(5)285 – Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

(Tudalennau 28 – 63)

CLA(5)–32–18 – Papur 2 – Adroddiad

CLA(5)–32–18 – Papur 3 – Rheoliadau

CLA(5)–32–18 – Papur 4 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau Cyfansawdd Penderfyniad Negyddol

- 4.2 SL(5)288 – Rheoliadau Diogelu'r Amgylchedd (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru a Lloegr) 2018

(Tudalennau 64 – 88)

CLA(5)–32–18 – Papur 5 – Adroddiad

CLA(5)–32–18 – Papur 6 – Rheoliadau

CLA(5)–32–18 – Papur 7 – Memorandwm Esboniadol

Offerynnau'r Weithdrefn Penderfyniad Cadarnhaol

- 4.3 SL(5)289 – Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a'r Cynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2019

(Tudalennau 89 – 114)

CLA(5)–32–18 – Papur 8 – Adroddiad

CLA(5)-32-18 – Papur 9 – Rheoliadau

CLA(5)-32-18 – Papur 10 – Memorandwm Esboniadol

5 Offerynnau nad ydynt yn cynnwys materion i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 na 21.3 ond sydd â goblygiadau o ganlyniad i ymadawriad y DU â'r UE

5.1 SL(5)284 – Rheoliadau Sŵn Amgylcheddol (Cymru) (Diwygio) 2018

(Tudalen 115)

CLA(5)-32-18 – Papur 11 – Adroddiad

5.2 SL(5)286 – Rheoliadau yr Amgylchedd, Cynllunio a Materion Gwledig (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2018

(Tudalen 116)

CLA(5)-32-18 – Papur 12 – Adroddiad

6 Offerynnau Statudol sydd angen Cydsyniad: Ymadael â'r UE

6.1 SICM(5)8 – Rheoliadau Amgylchedd Morol (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 117 – 149)

CLA(5)-32-18 – Papur 13 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

CLA(5)-32-18 – Papur 14 – Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Hysbysu mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodir gerbron y Cynulliad

CLA(5)-32-18 – Papur 15 – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)-32-18 – Papur 16 – Rheoliadau

CLA(5)-32-18 – Papur 17 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)-32-18 – Papur 18 – Sylwebaeth

6.2 SICM(5)9 – Rheoliadau Llongau Masnach a Thrafnidiaeth Arall (Diogelu'r Amgylchedd) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 150 – 179)

CLA(5)–32–18 – Papur 19 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

CLA(5)–32–18 – Papur 20 – Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Hysbysu mewn perthynas ag Offerynnau Statudol a wneir gan Weinidogion y DU mewn meysydd datganoledig o dan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 nas gosodir gerbron y Cynulliad

CLA(5)–32–18 – Papur 21 – Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol

CLA(5)–32–18 – Papur 22 – Rheoliadau

CLA(5)–32–18 – Papur 23 – Memorandwm Esboniadol

CLA(5)–32–18 – Papur 24 – Sylwebaeth

7 Datganiadau ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C

7.1 WS–30C(5)31 – Rheoliadau Polisi Amaethyddol Cyffredin a Bwrdd Datblygu Amaethyddiaeth a Garddwriaeth (Diwygio Etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 180 – 183)

CLA(5)–32–18 – Papur 25 – Datganiad

CLA(5)–32–18 – Papur 26 – Sylwebaeth

7.2 WS–30C(5)32 – Rheoliadau Sefydliadau Ewropeaidd a Gwarchodaeth Gonsylaidd (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 184 – 188)

CLA(5)–32–18 – Papur 27 – Datganiad

CLA(5)–32–18 – Papur 28 – Sylwebaeth

7.3 WS–30C(5)33 – Rheoliadau Enseffalopathïau Sbyngffurf Trosglwyddadwy a Sgîl-gynhyrchion Anifeiliaid (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 189 – 192)

CLA(5)–32–18 – Papur 29 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 30 – Sylwebaeth

**7.4 WS-30C(5)34 – Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Rheoliadau Domestig)
(Ymadael â'r UE) 2018**

(Tudalennau 193 – 196)

CLA(5)-32-18 – Papur 31 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 32 – Sylwebaeth

**7.5 WS-30C(5)35 – Rheoliadau Ansawdd Aer (Diwygio Amrywiol a Dirymu
Deddfwriaeth Uniongyrchol yr UE a Ddargedwir) (Ymadael â'r UE) 2018**

(Tudalennau 197 – 202)

CLA(5)-32-18 – Papur 33 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 34 – Sylwebaeth

**7.6 WS-30C(5)36 – Rheoliadau Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon
(Diwygiad) (Ymadael i'r UE) 2018**

(Tudalennau 203 – 206)

CLA(5)-32-18 – Papur 35 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 36 – Sylwebaeth

**7.7 WS-30C(5)37 – Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE)
2018**

(Tudalennau 207 – 210)

CLA(5)-32-18 – Papur 37 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 38 – Sylwebaeth

**7.8 WS-30C(5)38 – Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a
Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf
Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

(Tudalennau 211 – 214)

CLA(5)-32-18 – Papur 39 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 40 – Sylwebaeth

7.9 WS-30C(5)40 – Rheoliadau Masnachu Anifeiliaid a Chynhyrchion Cysylltiedig (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 215 – 218)

CLA(5)-32-18 – Papur 41 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 42 – Sylwebaeth

7.10 WS-30C(5)41 – Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 219 – 222)

CLA(5)-32-18 – Papur 43 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 44 – Sylwebaeth

7.11 WS-30C(5)42 – Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

(Tudalennau 223 – 230)

CLA(5)-32-18 – Papur 45 – Datganiad

CLA(5)-32-18 – Papur 46 – Sylwebaeth

8 Papurau i'w nodi

8.1 Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru: Cyflwyno a Chyhoeddi Adroddiad Terfynol Comisiwn y Gyfraith ar Gyfraith Cynllunio yng Nghymru

(Tudalennau 231 – 232)

CLA(5)-32-18 – Papur 47 – Datganiad Ysgrifenedig gan Lywodraeth Cymru

8.2 Llythyr gan y Llywydd at y Prif Weinidog: rôl y Cynulliad a'i bwyllgorau wrth graffu ar ddeddfwriaeth sy'n ymwneud â Brexit

(Tudalennau 233 – 234)

CLA(5)-32-18 – Papur 48 – Llythyr gan y Llywydd

8.3 Gohebiaeth â'r Prif Weinidog: Offerynnau Statudol Cyfansawdd ac Offerynnau Statudol ar y Cyd

(Tudalennau 235 – 244)

CLA(5)-32-18 – Papur 49 Llythyr at y Prif Weinidog, 13 Tachwedd 2018

CLA(5)-32-18 – Papur 50 Llythyr gan y Prif Weinidog, 28 Tachwedd 2018

8.4 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth: Ymateb i Adroddiad y Pwyllgor ar Graffu ar Reoliadau a wnaed o dan y Bil Masnachu

(Tudalennau 245 – 246)

CLA(5)-32-18 – Papur 51 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth

8.5 Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig: Bil Amaethyddiaeth y DU

(Tudalennau 247 – 250)

CLA(5)-32-18 – Papur 52 – Llythyr gan Ysgrifennydd y Cabinet dros Ynni, Cynllunio a Materion Gwledig

8.6 Llywydd gan y Llywydd: Diwygio'r Cynulliad

(Tudalennau 251 – 253)

CLA(5)-32-18 – Papur 53 – Llythyr gan y Llywydd

9 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42 i benderfynu gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer y mater a ganlyn:

16.00

10 Trafod y dystiolaeth: Bil Deddfwriaeth (Cymru)

11 Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol: Bil Amaethyddiaeth y DU : Adroddiad Drafft

(Tudalennau 254 – 292)

CLA(5)-32-18 – Papur 54 – Adroddiad drafft

12 Craffu ar reoliadau a wnaed o dan Ddeddf yr UE (Ymadael) 2018: Y wybodaeth ddiweddaraf

(Tudalennau 293 – 296)

CLA(5)-32-18 – Papur 55 – Y wybodaeth ddiweddaraf

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Jeremy Miles AC/AM
Y Cwnsler Cyffredinol/Counsel General AC/AM



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Mick Antoniwn AC
Cadeirydd Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

6 Rhagfyr 2018

Annwyl Mick,

BIL DEDDFWRIAETH (CYMRU) – GOHEBIAETH GAN YSGRIFENNYDD GWLADOL CYMRU

Gyda chydysyniad y Prif Weinidog, rydw i'n rhannu copi o lythyr a dderbyniwyd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru ar Bil Deddfwriaeth (Cymru).

Byddwn yn hapus i ateb cwestiynau ar hyn yn ystod fy nhystiolaeth ddydd Llun neu wedi hynny, petai hynny o gymorth i'r Pwyllgor.

Yn gywir

Jeremy Miles AC
Y Cwnsler Cyffredinol
Counsel General

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
PSCounselGeneral@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

Tudalen y pecyn 24
We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

The Rt Hon Carwyn Jones
First Minister of Wales
Welsh Government
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

5 December 2018

Dear Carwyn,

Legislation (Wales) Bill

The Legislation (Wales) Bill was introduced in the National Assembly on Monday. Our officials have been discussing the Bill in draft in recent months.

I recognise of course that it is for the National Assembly to determine the content and interpretation of legislation within its legislative competence. But the UK Government is concerned that some of the provisions in the Bill, as introduced, raise questions relating to the devolution boundary. The Bill also has implications for the clarity and accessibility of Parliamentary legislation given that Parliamentary Acts and Statutory Instruments made under them are within its scope.

I would like our officials to continue to discuss the content of the Bill and to seek a mutually agreeable solution that respects the Welsh devolution settlement fully. In parallel, the Bill will be subject to competence analysis by my Office's legal team in the usual way.

I am copying this letter to the Solicitor General in the UK Government and the Counsel General in the Welsh Government.



Rt Hon Alun Cairns MP
Secretary of State for Wales
Ysgrifennydd Gwladol Cymru

Eitem 3

Offerynnau Statudol sydd ag Adroddiadau Clir 10 Rhagfyr 2018

SL(5)287 – Rheoliadau Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cyfraddau Treth) (Cymru) (Diwygio) 2018

Gweithdrefn: Cadarnhaol

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhagnodi'r gyfradd safonol, y gyfradd is a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi ar gyfer y dreth gwarediadau tirlenwi sydd i'w chodi ar warediadau trethadwy a wneir ar 1 Ebrill 2019 neu ar ôl hynny.

Y gyfradd safonol o 1 Ebrill 2019 fydd £91.35 y dunnell, y gyfradd is fydd £2.90 y dunnell a'r gyfradd gwarediadau sydd heb eu hawdurdodi fydd £137.00 y dunnell.

Rhiant–Ddeddf: Gorchymyn Deddf Treth Gwarediadau Tirlenwi (Cymru) 2017

Fe'u gwnaed ar: 21 Tachwedd 2018

Fe'u gosodwyd ar: 26 Tachwedd 2018

Yn dod i rym ar: 01 Ebrill 2019



SL(5)290 – Rheoliadau Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 (Addasiad Ynysoedd Scilly) 2018

Gweithdrefn: Negyddol

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud addasiad i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, fel bod Cyngor Ynysoedd Scilly yn cael ei drin fel awdurdod lleol yn Lloegr at ddibenion y Ddeddf honno.

Rhiant–Ddeddf: Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Fe'u gwnaed ar: 29 Tachwedd 2018

Fe'u gosodwyd ar: 03 Rhagfyr 2018

Yn dod i rym ar: 04 Chwefror 2019



Eitem 4.1

SL(5)285 - Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018

Cefndir a Diben

Cynhaliodd y Comisiwn Ewropeaidd adolygiad ffurfiol o reolau presennol yr UE sy'n gorchymyn categoreiddio a dosbarthu anifeiliaid a gyflwynir i'w lladd yn erbyn safonau cyffredin Ewropeaidd er mwyn eu gwneud yn fwy tryloyw.

O ganlyniad, gweithredwyd Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn 2017/1182 a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn 2017/1184 yn ategu Rheoliad (UE) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran adrodd am brisiau marchnad rhai categorïau o garcasau ac anifeiliaid byw.

Cynhwyswyd y gyfundrefn ddosbarthu a gorfodi flaenorol yn Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011. Mae'r Rheoliadau hynny yn cael eu diddymu a'u disodli i gyd-fynd â'r newidiadau i gyfundrefn yr UE.

Y weithdrefn

Negyddol.

Materion technegol: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.2 (v) - bod angen eglurhad pellach ynglŷn â'i ffurf neu ei ystyr am unrhyw reswm penodol

O dan reoliad 19(b), gall swyddogion awdurdodedig, wrth arfer pwerau mynediad:

- gael mynediad i gyfrifiaduron,
- archwilio cyfrifiaduron, a
- gwirio gweithrediad cyfrifiaduron,

yn yr eiddo a gaiff ei archwilio, lle mae'r cyfrifiaduron yn cael eu defnyddio mewn cysylltiad â chofnodion y mae'n ofynnol eu cadw o dan y Rheoliadau.

Nid yw'n glir i ni beth yw ystyr "gwirio gweithrediad" cyfrifiadur. Gofynnwn i Lywodraeth Cymru esbonio ystyr "gwirio gweithrediad" cyfrifiadur trwy: (a) ddarparu enghreifftiau o'r hyn mae'n ei gynnwys, a (b) esbonio'r hyn y gellir ei gyflawni drwy wirio gweithrediad cyfrifiadur na ellir ei gyflawni drwy gael mynediad i'r cyfrifiadur ac archwilio'r cyfrifiadur.

Rydym o'r farn ei bod yn hanfodol y caiff pwerau mynediad eu drafftio heb ddarpariaethau diangen neu aneglur, yn enwedig pan y gellir arfer y pwerau mynediad mewn perthynas â chartref unigolyn.



2. Rheol Sefydlog 21.2(vi) – ei bod yn ymddangos bod gwaith drafftio'r offeryn neu'r drafft yn ddiffygiol neu ei fod yn methu â bodloni gofynion statudol

Mae'r Rheoliadau'n dweud y gall Gweinidogion Cymru roi trwyddedau er mwyn dosbarthu carcasau buchol. O dan reoliad 8, gellir rhoi trwydded ar gyfer **dosbarthiad gweledol**. O dan reoliad 9, gellir rhoi trwydded ar gyfer defnyddio **offer graddio awtomataidd i ddsbarthu**. Ymddengys i ni fod rheoliadau 8 a 9 yn ymwneud â dau ddull penodol o ddsbarthu carcasau buchol.

Mae rheoliad 29(1) yn dweud ei bod yn drosedd pe bai "dosbarthiad" yn cael ei gynnal heb drwydded a ganiatawyd o dan reoliad 8.

Mae rheoliad 29(2) yn dweud ei bod yn drosedd "os ymglymerir ... dosbarthu ... drwy ddefnyddio offer graddio awtomataidd" heb drwydded a ganiatawyd o dan reoliad 9.

Felly mae'n ymddangos y bwriedir i reoliad 29(1) ymdrin â dosbarthiad gweledol a bwriad rheoliad 29(2) yw ymdrin â dosbarthiad drwy offer graddio awtomataidd. Fodd bynnag, er bod rheoliad 29(2) wedi'i gyfyngu'n benodol i ddsbarthu gan offer awtomataidd, ymddengys bod rheoliad 29(1), ar yr wyneb, yn berthnasol i **bob** dosbarthiad.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru a ddylai rheoliad 29(1) gyfeirio at "ddsbarthiad gweledol". Mae rheoliad 29 yn creu troseddau, felly mae angen eglurder llwyr ynghylch ehangder y drosedd.

Rhinweddau: craffu

Nodwyd dau bwynt i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Cynulliad.

O dan reoliad 10, gall Gweinidogion Cymru benodi person i ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru. Er enghraifft, os yw Gweinidogion Cymru yn gwrthod trwydded i X o dan reoliad 8 oherwydd bod Gweinidogion Cymru o'r farn nad yw X yn addas ac yn briodol i gael trwydded, gall X apelio i'r person a benodir gan Weinidogion Cymru.

Nodwn nad oes unrhyw gyfeiriad yn y Rheoliadau na'r Memorandwm Esboniadol at annibyniaeth y person sy'n ystyried apelau o'r fath. Mae materion megis cael gwrthod trwydded neu gael trwydded wedi ei dirymu yn faterion difrifol sy'n effeithio ar fywoliaeth pobl. Dylai fod dull teg ac annibynnol ar gyfer penderfyniadau apêl a wneir gan Weinidogion Cymru mewn perthynas â thrwyddedau.

Nodwn mai'r Asiantaeth Taliadau Gwledig sy'n gyfrifol am orfodi'r Rheoliadau, ond rydym yn tybio nad yw ystyried apelau yn erbyn penderfyniadau Gweinidogion Cymru yn golygu gorfodi.

Byddem yn croesawu eglurhad gan Lywodraeth Cymru ynghylch y weithdrefn sy'n berthnasol i apelau o dan reoliad 10 o'r Rheoliadau hyn.



2. Rheol Sefydlog 21.3(iv) – mae'n rhoi deddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd ar waith yn amhriodol

Dylai'r gyfundrefn ddiweddaraf a gynhwysir yn y Rheoliadau hyn fod wedi ei gweithredu gan Aelod-wladwriaethau erbyn 11 Gorffennaf 2018. Nodwn fod y dyddiad terfynol wedi bod ac rydym yn croesawu tryloywder Llywodraeth Cymru wrth nodi hyn yn y Memorandwm Esboniadol.

Fodd bynnag, ymddengys fod y Memorandwm Esboniadol yn dweud, wrth gydymffurfio â'r gyfundrefn gyfredol, bod y diwydiant, mewn gwirionedd, eisoes wedi bod yn cydymffurfio â'r gyfundrefn newydd, ddiweddaraf hon. Er bod hynny'n ymddangos yn wir am bron bob un o ofynion y gyfundrefn newydd, nid yw'n glir a yw'r diwydiant eisoes yn cydymffurfio â'r gofyniad newydd i gynnwys y "categori pwysau marw U4" mewn dosbarthiadau buchol.

Gofynnwn i Lywodraeth Cymru gadarnhau a yw cyflenwyr presennol wedi cydymffurfio â'r gofyniad categori pwysau marw newydd U4 hwn o dan y gyfundrefn gyfredol?

Y goblygiadau yn sgil gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae'r Rheoliadau hyn yn rhan o "ddeddfwriaeth ddomestig sy'n deillio o'r UE" o dan adran 2 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, felly bydd y Rheoliadau hyn yn cael eu cadw fel cyfraith ddomestig a byddant yn parhau i fod mewn grym yng Nghymru ar ôl y diwrnod ymadael.

Ymateb y Llywodraeth

Mae angen ymateb y llywodraeth i'r pwyntiau craffu technegol a rhinweddau sy'n codi yn yr adroddiad hwn.

Cynghorwyr Cyfreithiol

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

4 Rhagfyr 2018



OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 1215 (Cy. 248)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a
Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018**

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Mae'r Rheoliadau hyn, sy'n gymwys o ran Cymru, yn dirymu ac yn disodli Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011 (O.S. 2011/1826 (Cy. 198)) ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i ddiwyddu Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1249/2008 (OJ Rhif L 337, 16.12.2008, t. 3).

Mae'r Rheoliadau'n gorfodi'r canlynol—

- Erthygl 10 o Reoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor (OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671) ac Atodiad IV iddo, sy'n ymwneud â graddfeydd yr Undeb Ewropeaidd ar gyfer dosbarthu carcasau; a
- Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 (OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 74) ("Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn"); a Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 (OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103) ("Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn") sy'n nodi rhagor o fanylion ynghylch rhoi'r graddfeydd hyn ar waith.

Mae'r Rheoliadau'n ymwneud â charcasau anifeiliaid buchol llawn-dwf (sef anifeiliaid sy'n wyth mis oed neu ragor) a moch.

Mae rheoliad 5 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwyr lladd-dai sy'n cigydda anifeiliaid buchol llawn-dwf neu foch hysbysu Gweinidogion Cymru. Er hynny, nid yw'r Rheoliadau'n gymwys i weithredwyr buchol ar raddfa fach sy'n cigydda llai na 150 o anifeiliaid buchol llawn-dwf yr wythnos ar gyfartaledd bob blwyddyn, oni bai eu bod yn dewis dosbarthu carcasau buchol (rheoliad 6); nac i weithredwyr lladd-dai lle y mae llai na 500 o foch glân yr wythnos yn cael eu cigydda, ar gyfartaledd bob blwyddyn (rheoliad 12).

Mae'r Rheoliadau'n darparu ar gyfer system drwyddedu i unrhyw un sy'n dosbarthu carcasau buchol drwy edrych arnynt ac ar gyfer trwyddedu lladd-dai sy'n defnyddio offer graddio awtomataidd i ddsbarthu'r carcasau hynny (rheoliadau 8 i 10). Mae torri gofynion y drwydded yn drosedd (rheoliad 29).

Rhaid i waith dosbarthu carcasau moch gael ei wneud drwy ddefnyddio dull graddio a awdurdodwyd a thechnegau graddio a weithredir gan bersonél cymwys (rheoliad 14). Mae torri'r gofyniad hwn yn drosedd (rheoliad 30). Yn lle marcio carcas mochyn, caniateir i weithredwr gadw cofnod o'i ddsbarthiad (rheoliad 15).

Mae'n ofynnol i weithredwyr lladd-dai cymeradwy gadw cofnodion ynglŷn â charcasau buchol a charcasau moch yn eu tro (rheoliadau 11 ac 16 ac Atodlenni 3 a 4).

Mae Rhan 5 o'r Rheoliadau'n ymwneud â gorfodi, ac yn gwneud darpariaeth ynglŷn â phwerau swyddogion awdurdodedig, hysbysiadau gorfodi, hysbysiadau cosb ac achosion troseddol. Mae rheoliadau 20(3) a 26 i 32 yn nodi'r troseddau o dan y Rheoliadau, y gellir cosbi pob un ohonynt ar euogfarn ddiannod â dirwy, ac eithrio troseddau o dan reoliad 31(2) neu (3) (marciau ffug).

Yn benodol, mae rheoliadau 26 a 27 yn darparu bod torri darpariaethau penodedig yn neddfwriaeth yr Undeb Ewropeaidd yn drosedd, sef y darpariaethau eidion Ewropeaidd a nodir yn Atodlen 1 a'r darpariaethau moch Ewropeaidd a nodir yn Atodlen 2. Mae'r darpariaethau a bennir yn Atodlenni 1 a 2 yn cynnwys gofynion ynglŷn â chofnodi a hysbysu prisiau'r farchnad ar gyfer carcasau buchol a charcasau moch yn eu tro.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn gan fod y diwygiadau o natur dechnegol.

OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

2018 Rhif 1215 (Cy. 248)

AMAETHYDDIAETH, CYMRU

**Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a
Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018**

Gwnaed 22 Tachwedd 2018

*Gosodwyd gerbron Cynulliad Cenedlaethol
Cymru* 23 Tachwedd 2018

Yn dod i rym 14 Rhagfyr 2018

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 a pharagraff 1A o Atodlen 2 iddi⁽¹⁾.

Mae Gweinidogion Cymru wedi eu dynodi⁽²⁾ at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972 mewn perthynas â pholisi amaethyddol cyffredin yr Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud darpariaeth at ddiben a grybwyllir yn yr adran honno ac mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei bod yn hwylus dehongli cyfeiriadau at y Rheoliadau a ganlyn fel cyfeiriad at y Rheoliadau hynny fel y'u diwygir o bryd i'w gilydd—

- (a) Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol⁽³⁾;

(1) 1972 p. 68. Diwygiwyd adran 2(2) gan adran 27(1)(a) o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006 (p. 51) a chan adran 3(3) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Diwygio) 2008 (p. 7), a Rhan 1 o'r Atodlen iddi. Mewnosodwyd paragraff 1A o Atodlen 2 gan adran 28 o Ddeddf Diwygio Deddfwriaethol a Rheoleiddiol 2006.

(2) O.S. 2010/2690.

(3) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2017/2393 (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).

- (b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 sy'n cydategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/213 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(1); ac
- (c) Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 sy'n gosod rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(2).

RHAN 1

DARPARIAETHAU CYFFREDINOL

Enwi, cymhwyso a chychwyn

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau a Hysbysu eu Prisiau (Cymru) 2018.

(2) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru.

(3) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 14 Rhagfyr 2018.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

ystyr “anifail buchol llawn-dwF” (“*adult bovine animal*”) yw anifail buchol sy'n wyth mis oed neu ragor;

ystyr “carcas buchol” (“*bovine carcase*”) yw carcass neu hanner carcass anifail buchol llawn-dwF a gigyddwyd ac sy'n dwyn marc iechyd y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 5(2) o Reoliad (EC) Rhif 854/2004 Senedd Ewrop a'r Cyngor a Phennod III o Adran 1 o Atodiad 1 iddo, sy'n gosod rheolau penodol ar gyfer trefnu rheolaethau swyddogol ar gynhyrchion sy'n tarddu o anifeiliaid ac a fwriedir ar gyfer eu bwyta gan bobl(3); ac yn y diffiniad hwn—

(a) ystyr “carcas” yw holl gorff anifail a gigyddwyd fel y'i cyflwynir ar ôl ei waedu, ei ddiberfeddu a thynnu ei groen, a

(1) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 74.

(2) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103.

(3) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 206, fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2015/2285 (OJ Rhif L 323, 9.12.2015, t. 6).

(b) ystyr “hanner carcass” yw’r cynnyrch a geir drwy wahanu’r carcass yn gymesur drwy ganol pob fertebra gyddfodol, dorsal, meingefnodol a sacrol a thrwy ganol y sternwm a’r symffysis isgiopwbig;

ystyr “carcass mochyn” (“*pig carcass*”) yw corff mochyn glân sydd wedi ei gigydda, wedi ei waedu ac wedi ei ddiberfeddu, yn gyfan ynteu wedi ei rannu ar hyd y llinell ganol;

ystyr “cyfathrebiad rhagnodedig” (“*prescribed communication*”) yw cyfathrebiad o’r canlyniadau dosbarthu yn unol â gofynion Erthygl 1 o Reoliad Gweithredu’r Comisiwn;

ystyr “darpariaeth eidion Ewropeaidd” (“*European beef provision*”) yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 1, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn (3) o’r Atodlen honno;

ystyr “darpariaeth moch Ewropeaidd” (“*European pig provision*”) yw darpariaeth a bennir yng ngholofn (2) o Atodlen 2, y disgrifir ei chynnwys yng ngholofn (3) o’r Atodlen honno;

ystyr “dosbarthu” (“*classification*”) yw—

(a) dosbarthu carcassau buchol yn unol â’r darpariaethau eidion Ewropeaidd, neu

(b) dosbarthu carcassau moch yn unol â’r darpariaethau moch Ewropeaidd a rheoliad 14,

yn ôl y digwydd, ac mae termau cytras i’w dehongli yn unol â hynny;

ystyr “gweithredwr” (“*operator*”) yw person sy’n cynnal busnes lladd-dy cymeradwy;

ystyr “lladd-dy cymeradwy” (“*approved slaughterhouse*”) yw sefydliad a ddefnyddir i gigydda anifeiliaid buchol llawn-dwf neu foch, y mae eu cig wedi ei fwriadu ar gyfer ei fwyta gan bobl ac sydd wedi ei gymeradwyo neu wedi ei gymeradwyo’n amodol o dan Erthygl 4 o Reoliad (EC) Rhif 853/2004 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n gosod rheolau hylendid penodol ar gyfer bwyd sy’n tarddu o anifeiliaid⁽¹⁾;

ystyr “mochyn glân” (“*clean pig*”) yw mochyn sydd heb ei ddefnyddio ar gyfer bridio;

ystyr “Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn” (“*Commission Delegated Regulation*”) yw Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1182 sy’n cydategu Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcassau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau

(1) OJ Rhif L 139, 30.4.2004, t. 55, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad y Comisiwn (EU) Rhif 2017/1981 (OJ Rhif L 285, 1.11.2017, t. 10).

marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(1);

ystyr “Rheoliad (EU) 2013” (“*Regulation (EU) 2013*”) yw Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor sy’n sefydlu cyd-drefniadaeth ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion amaethyddol;(2)

ystyr “Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn” (“*Commission Implementing Regulation*”) yw Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn (EU) Rhif 2017/1184 sy’n gosod rheolau ar gymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 1308/2013 Senedd Ewrop a’r Cyngor o ran graddfeydd yr Undeb ar gyfer dosbarthu carcasau eidion, moch a defaid ac o ran hysbysu prisiau marchnad categorïau penodol o garcasau ac anifeiliaid byw(3);

ystyr “Rheoliadau 2011” (“*the 2011 Regulations*”) yw Rheoliadau Dosbarthu Carcasau Eidion a Moch (Cymru) 2011(4);

ystyr “swyddog awdurdodedig” (“*authorised officer*”) yw person a awdurdodir gan Weinidogion Cymru at ddibenion y Rheoliadau hyn, ond nid yw’n cynnwys person a benodir er mwyn ystyried apêl o dan reoliad 10.

(2) Mae i’r termau eraill a ddefnyddir yn y Rheoliadau hyn ac y defnyddir y termau Saesneg sy’n cyfateb iddynt yn Rheoliad (EU) 2013, Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn neu Reoliad Gweithredu’r Comisiwn, yr ystyron a ddygir gan y termau cyfatebol Saesneg yn y Rheoliadau hynny.

(3) Yn y Rheoliadau hyn, mae unrhyw gyfeiriad at—

- (a) Rheoliad (EU) 2013,
- (b) Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn, neu
- (c) Rheoliad Gweithredu’r Comisiwn,

i’w ddehongli fel cyfeiriad at yr offeryn hwnnw fel y’i diwygir o bryd i’w gilydd.

Darpariaethau trosiannol

3. Mae unrhyw hysbysiad, trwydded, cymeradwyaeth neu awdurdodiad a roddwyd neu a ganiatwyd o dan Reoliadau 2011 ac sy’n effeithiol pan ddaw’r Rheoliadau hyn i rym yn aros mewn grym fel pe baent wedi eu rhoi neu wedi eu caniatáu o dan y Rheoliadau hyn.

(1) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 74 .
 (2) OJ Rhif L 347, 20.12.2013, t. 671, fel y’i diwygiwyd ddiwethaf gan Reoliad (EU) Rhif 2017/2393 (OJ Rhif L 350, 29.12.2017, t. 15).
 (3) OJ Rhif L 171, 4.7.2017, t. 103.
 (4) O.S. 2011/1826 (Cy. 198).

Dirymu

4. Mae'r canlynol wedi eu dirymu—

- (a) Rheoliadau 2011; a
- (b) rheoliad 2 o Reoliadau'r Trefniant Cyffredin Sengl ar gyfer Marchnadoedd (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2013(1).

RHAN 2

HYSBYSU GAN WEITHREDWYR

Hysbysu gan weithredwyr

5.—(1) Rhaid i bob person—

- (a) sy'n weithredwr ar y dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym, neu
- (b) sy'n dod yn weithredwr ar ddyddiad dilynol,

roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r manylion a bennir ym mharagraff (3) o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daw'r Rheoliadau hyn i rym neu o fewn 28 diwrnod i'r dyddiad y daw'r person hwnnw'n weithredwr, yn ôl y digwydd.

(2) Bernir bod person—

- (a) sydd wedi rhoi hysbysiad, neu y barnwyd ei fod wedi rhoi hysbysiad, o dan reoliad 5(1) neu (2) o Reoliadau 2011, a
- (b) y mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys iddo yn rhinwedd rheoliad 6 neu 12,

wedi rhoi hysbysiad o dan baragraff (1).

(3) Dyma'r manylion ym mharagraff (1)—

- (a) enw a chyfeiriad llawn y gweithredwr;
- (b) pan fo'r gweithredwr yn bartneriaeth neu'n gydberchnogion, enwau a chyfeiriadau llawn pob un o'r partneriaid neu'r gydberchnogion;
- (c) pan fo'r gweithredwr yn gorff corfforaethol, enw llawn, cyfeiriad swyddfa gofrestrdig a rhif cofrestru'r corff; a
- (d) cyfeiriad, rhif teleffon a rhif cymeradwyo'r lladd-dy.

(4) Pan fo unrhyw newid yn digwydd mewn unrhyw un neu ragor o'r manylion a bennir ym mharagraff (3), rhaid i'r gweithredwr, o fewn 28 diwrnod i ddyddiad y newid, roi hysbysiad o fanylion y newid i Weinidogion Cymru.

(5) Pan fo gweithredwr ("G") yn peidio â bod yn weithredwr lladd-dy cymeradwy, rhaid i G, o fewn 10 niwrnod i'r dyddiad y peidiodd â bod yn weithredwr

(1) O.S. 2013/3270 (Cy. 320).

o'r fath, roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r canlynol—

- (a) y dyddiad y peidiodd â bod yn weithredwr o'r fath; a
- (b) y person (os oes un) sy'n olynu G fel gweithredwr y lladd-dy hwnnw.

(6) Pan fo lladd-dy cymeradwy'n peidio â bod yn lladd-dy o'r fath, rhaid i weithredwr y lladd-dy, o fewn 10 niwrnod i'r dyddiad y peidiodd â bod yn lladd-dy o'r fath, roi hysbysiad i Weinidogion Cymru o'r dyddiad y peidiodd â bod yn lladd-dy o'r fath.

RHAN 3

CARCASAU BUCHOL

Cymhwyso'r Rheoliadau hyn at weithredwyr buchol ar raddfa fach

6.—(1) Nid yw'n ofynnol i weithredwr buchol ar raddfa fach ddsbarthu carcasau buchol.

(2) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr buchol ar raddfa fach nad yw'n dosbarthu carcasau buchol.

(3) Ond, os bydd gweithredwr buchol ar raddfa fach yn dewis dosbarthu carcasau buchol, mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys mewn perthynas â'r gweithredwr hwnnw ac mewn perthynas â dosbarthu'r carcasau hynny.

(4) Yn y rheoliad hwn, ystyr "gweithredwr buchol ar raddfa fach" yw gweithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 150 o anifeiliaid buchol llawn-dwf yn cael eu cigydda bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

(5) Ni fernir bod unrhyw weithredwr buchol ar raddfa fach yr oedd yn ofynnol iddo, nes i'r Rheoliadau hyn ddod i rym, ddsbarthu carcasau buchol o dan Reoliadau 2011 wedi dewis gwneud hynny at ddibenion paragraff (3) am y rheswm hwnnw yn unig.

(6) Nid oes dim yn y rheoliad hwn sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau moch, os oes moch hefyd yn cael eu cigydda yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.

Awdurdodau cymwys: carcasau buchol

7.—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion—

- (a) Erthygl 12(2)(b) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau ychwanegol ar ddsbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd);

- (b) Erthyglau 13 a 14 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn ac Erthygl 14 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (hysbysu prisiau'r farchnad a chyfrifo pris cyfartalog pob dosbarth);
- (c) Erthygl 17(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau atodol ar hysbysu prisiau marchnad carcasau);
- (d) Erthygl 4(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (gwneud a chadw adroddiadau ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle).

(2) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y canlynol—

- (a) Erthygl 10 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (awdurdodi dulliau graddio awtomataidd);
- (b) Erthygl 25 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (hysbysu'r Comisiwn);
- (c) gwiriadau yn y fan a'r lle, yn unol â'r disgrifiad o "on-the-spot checks" yn Erthyglau 2 a 3 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn.

Trwydded i ymgymryd â dosbarthu

8.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol drwy edrych arnynt i unrhyw berson sy'n gwneud cais am drwydded o'r fath ac sy'n ymddangos i Weinidogion Cymru ei fod yn gymwys i ymgymryd â'r dosbarthu, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni bod y ceisydd yn berson addas a phriodol i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae Gweinidogion Cymru'n ystyried eu bod yn angenrheidiol at ddibenion paragraff (1).

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (dosbarthiadau, cyflwyniadau neu adnabyddiadau anghywir), caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatawyd i berson o dan y rheoliad hwn—

- (a) os yw'r person wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded honno; neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni nad yw'r person sy'n dal y drwydded honno yn berson addas a phriodol mwyach i ymgymryd â dosbarthu carcasau buchol.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y

rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifen;
- (b) rhoi'r rhesymau; ac
- (c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

Trwydded ar gyfer graddio awtomataidd

9.—(1) Caiff Gweinidogion Cymru ganiatáu trwydded i weithredwr lladd-dy cymeradwy i awdurdodi defnyddio offer graddio awtomataidd i ddsbarthu carcasau buchol yn y lladd-dy hwnnw, os yw Gweinidogion Cymru wedi eu bodloni y byddai'r offer a'i ddull gweithredu yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Erthyglau 9(b) a 10(2) (o'u darllen gyda Rhan A o Atodiad IV) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn.

(2) Caniateir i'r drwydded gael ei rhoi yn ddarostyngedig i unrhyw delerau ac amodau y mae eu hangen er mwyn sicrhau y cydymffurfir â'r safonau hynny.

(3) Yn ychwanegol at y pŵer i ddirymu trwydded yn yr amgylchiadau a grybwyllir yn Erthygl 4(2) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, caiff Gweinidogion Cymru atal dros dro neu ddirymu trwydded a ganiatawyd i weithredwr o dan y rheoliad hwn—

- (a) os yw'r gweithredwr wedi torri unrhyw un neu ragor o delerau neu amodau'r drwydded; neu
- (b) os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried nad yw'r offer graddio awtomataidd mwyach yn bodloni'r safonau sy'n ofynnol gan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn, pa un ai am resymau sy'n gysylltiedig â'r offer ei hun neu'r modd y defnyddir yr offer gan y gweithredwr.

(4) Pan fo Gweinidogion Cymru'n gwneud unrhyw benderfyniad mewn perthynas â thrwydded o dan y rheoliad hwn, a'r penderfyniad hwnnw'n ysgogi hawl i apelio o dan reoliad 10, rhaid i Weinidogion Cymru—

- (a) hysbysu'r person am y penderfyniad mewn ysgrifen;
- (b) rhoi'r rhesymau; ac
- (c) esbonio bod yna hawl i apelio i berson a benodir gan Weinidogion Cymru.

Apelau ynghylch trwyddedau

10.—(1) Caniateir i berson apelio yn erbyn—

- (a) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i wrthod cais gan y person hwnnw am drwydded o dan reoliad 8 neu 9;
- (b) teler neu amod a osodwyd gan Weinidogion Cymru mewn trwydded a ganiatawyd i'r person hwnnw o dan reoliad 8 neu 9; neu
- (c) penderfyniad gan Weinidogion Cymru i atal dros dro neu ddirymu trwydded o dan reoliad 8 neu 9.

(2) Rhaid i'r apêl gael ei gwneud i berson a benodir at y diben gan Weinidogion Cymru.

(3) Caiff Gweinidogion Cymru hefyd gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r person a benodir ynglŷn â'r penderfyniad.

(4) Rhaid i'r person a benodir ystyried yr apêl ac unrhyw sylwadau a gyflwynir gan Weinidogion Cymru, a rhaid iddo gyflwyno adroddiad ysgrifenedig i Weinidogion Cymru gyda'i gasgliadau ar yr apêl ac argymhelliad ar sut y dylai'r mater gael ei benderfynu'n derfynol gan Weinidogion Cymru.

(5) Wedyn rhaid i Weinidogion Cymru gyrraedd penderfyniad terfynol, a hysbysu'r person a wnaeth yr apêl am y penderfyniad hwnnw a'r rhesymau drosto.

Cofnodion: carcassau buchol

11.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy cymeradwy gadw cofnod o'r manylion a bennir yn Atodlen 3 ynglŷn â phob carcass buchol a ddosberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Rhaid i'r gweithredwr ddal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae'r cofnod yn berthynol iddi.

RHAN 4

CARCASAU MOCH

Esemptiad i weithredwyr moch ar raddfa fach

12.—(1) Nid yw'r Rheoliadau hyn yn gymwys i weithredwr lladd-dy cymeradwy lle y mae llai na 500 o foch glân yn cael eu cigydda bob wythnos, ar gyfartaledd dros flwyddyn.

(2) Nid oes dim ym mharagraff (1) sy'n rhwystro'r Rheoliadau hyn rhag cael eu cymhwyso at weithredwr mewn perthynas â charcasau buchol, os oes anifeiliaid buchol llawn-dwf hefyd yn cael eu cigydda yn lladd-dy'r gweithredwr hwnnw.

Awdurdod cymwys: carcassau moch

13.—(1) Gweinidogion Cymru yw'r awdurdod cymwys at ddibenion y canlynol—

- (a) Erthygl 7(4) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (dosbarthu a phwyso);
- (b) Erthygl 12(2)(b) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau ychwanegol ar ddosbarthu drwy dechnegau graddio awtomataidd);
- (c) Erthyglau 13 a 14 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn ac Erthygl 14 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (hysbysu prisiau'r farchnad a chyfrifo pris cyfartalog pob dosbarth);
- (d) Erthygl 17(2) o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (darpariaethau atodol ar hysbysu prisiau marchnad carcasau);
- (e) Erthygl 4(1) o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn (gwneud a chadw adroddiadau ar gyfer gwiriadau yn y fan a'r lle).
- (f) Gweinidogion Cymru sy'n gyfrifol am y canlynol—
- (g) Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (awdurdodi dulliau graddio awtomataidd);
- (h) Erthygl 25 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn (hysbysu'r Comisiwn);
- (i) gwiriadau yn y fan a'r lle, yn unol â'r disgrifiad o “on-the-spot checks” yn Erthyglau 2 a 3 o Reoliad Gweithredu'r Comisiwn.

Dulliau graddio awdurdodedig

14.—(1) Rhaid ymgymryd â dosbarthu carcasau moch mewn lladd-dy cymeradwy—

- (a) drwy ddefnyddio dull graddio awdurdodedig y darperir ar ei gyfer yn Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn; a
- (b) drwy ddefnyddio technegau graddio y darperir ar eu cyfer yn Erthygl 11 o Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn a'r rheiny'n cael eu gweithredu gan bersonél cymwys.

(2) Yn y rheoliad hwn, mae “personél cymwys” yn cyfeirio at unrhyw berson sy'n hyfedr wrth ddefnyddio'r offer a'r technegau graddio sy'n cael eu gweithredu gan y person hwnnw.

Cofnodion yn lle marcio

15. Caiff gweithredwr neu'r person sy'n gyfrifol am ddosbarthu moch, yn hytrach na marcio carcas yn unol â'r darpariaethau moch Ewropeaidd a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 2, lunio cofnod ar gyfer y carcas hwnnw sy'n cynnwys o leiaf—

- (a) modd i adnabod y carcass yn unigol drwy unrhyw ddull nad oes modd ei newid;
- (b) pwysau cynnes y carcass; ac
- (c) canlyniad y dosbarthiad.

Cofnodion: carcassau moch

16.—(1) Rhaid i weithredwr lladd-dy cymeradwy gadw cofnod o'r manylion a bennir yn Atodlen 4 ynglŷn â phob carcass mochyn a ddsberthir yn y lladd-dy hwnnw.

(2) Rhaid i'r gweithredwr ddal gafael ar bob cofnod am gyfnod o 12 mis o ddiwedd y flwyddyn galendr y mae'r cofnod yn berthynol iddi.

RHAN 5

GORFODI A THROSEDDAU

Hysbysiadau

17.—(1) Rhaid i unrhyw hysbysiad y mae'n ofynnol ei roi, neu yr awdurdodir ei roi, i unrhyw berson o dan y Rheoliadau hyn fod mewn ysgrifen.

(2) Caniateir i unrhyw hysbysiad o'r fath gael ei roi—

- (a) drwy ei drosglwyddo i'r person;
- (b) drwy ei adael yng nghyfeiriad priodol y person; neu
- (c) drwy ei anfon drwy'r post at y person yn y cyfeiriad hwnnw.

(3) Pan fo unrhyw hysbysiad o'r fath i gael ei roi i gorff corfforaethol, caniateir iddo gael ei roi i un o swyddogion y corff.

(4) At ddiben y rheoliad hwn, cyfeiriad priodol unrhyw berson y mae hysbysiad i gael ei roi iddo yw cyfeiriad hysbys olaf y person hwnnw, ac eithrio mai'r cyfeiriad priodol, yn achos corff corfforaethol neu un o swyddogion y corff, yw cyfeiriad swyddfa gofrestredig neu brif swyddfa'r corff hwnnw.

(5) Yn y rheoliad hwn—

ystyr “cyfarwyddwr” (“*director*”), mewn perthynas â chorff corfforaethol y rheolir ei faterion gan ei aelodau, yw aelod o'r corff corfforaethol; ac

ystyr “swyddog” (“*officer*”), mewn perthynas â chorff corfforaethol, yw unrhyw gyfarwyddwr, rheolwr, ysgrifennydd neu swyddog cyffelyb arall i'r corff corfforaethol.

Pwerau mynediad

18.—(1) Caiff swyddog awdurdodedig, ar unrhyw adeg resymol ac, os gofynnir iddo, ar ôl dangos awdurdodiad a ddilyswyd yn briodol, fynd i mewn i ladd-dy cymeradwy ac unrhyw fangre gysylltiedig, lle y gall carcasau fod yn cael eu trin, neu lle y gall cofnodion ynglŷn â'r carcasau hynny fod yn cael eu cadw, er mwyn canfod—

- (a) a oes unrhyw drosedd o dan y Rheoliadau hyn yn cael, neu wedi cael, ei chyflawni yn y fangre; neu
- (b) a oes unrhyw dystiolaeth yn y fangre o unrhyw drosedd o'r fath.

(2) Caiff y swyddog fynd ag unrhyw bersonau eraill y mae'n credu eu bod yn angenrheidiol gydag ef.

(3) Caiff ynad heddwch, drwy warant wedi ei llofnodi, ganiatáu i swyddog awdurdodedig fynd i mewn i unrhyw fangre, drwy rym rhesymol os bydd angen hynny, os yw wedi ei fodloni ar sail gwybodaeth ysgrifenedig a roddir ar lw—

- (a) bod sail resymol dros fynd i mewn i'r fangre at unrhyw ddiben ym mharagraff (1); a
- (b) bod unrhyw un neu ragor o'r amodau a ganlyn wedi eu bodloni—
 - (i) bod mynediad i'r fangre wedi ei wrthod, neu y rhagwelir y caiff ei wrthod, ac (yn y naill achos neu'r llall) fod hysbysiad o'r bwriad i wneud cais am warant wedi ei roi i'r gweithredwr;
 - (ii) y byddai gwneud cais am fynediad, neu roi hysbysiad o'r fath, yn tansilio'r diben o fynd i mewn;
 - (iii) bod yr achos yn achos brys; neu
 - (iv) bod y fangre'n wag neu fod y gweithredwr yn absennol dros dro,

(4) Mae gwarant a ganiateir o dan y rheoliad hwn yn parhau mewn grym am dri mis.

(5) Rhaid i swyddog sy'n mynd i mewn i unrhyw fangre wag, neu fangre sydd â'i gweithredwr yn absennol dros dro, adael y fangre wedi ei diogelu mor effeithiol rhag mynediad diawdurdod ag yr oedd cyn i'r swyddog fynd i mewn.

Pwerau swyddogion awdurdodedig

19. Caiff swyddog awdurdodedig sy'n mynd i mewn i fangre o dan y Rheoliadau hyn—

- (a) arolygu unrhyw garcas buchol neu garcas mochyn neu ran o garcas o'r fath, neu unrhyw garcas neu ran o garcas y mae'r swyddog yn amau'n rhesymol ei fod yn garcas buchol neu garcas mochyn neu ran o garcas o'r fath;

- (b) archwilio unrhyw gofnod y mae'n ofynnol i weithredwr ei gadw o dan reoliad 11 neu 16 neu o dan Reoliad Dirprwyedig y Comisiwn neu Reoliad Gweithredu'r Comisiwn, a phan ddefnyddir cyfrifiadur i gadw'r cofnod hwnnw, cael mynediad i unrhyw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig, a ddefnyddir neu a ddefnyddiwyd mewn cysylltiad â'r cofnod hwnnw, ac arolygu a gwirio gweithrediad y cyfryw gyfrifiadur a chyfarpar neu ddeunydd cysylltiedig;
- (c) ei gwneud yn ofynnol i gopïau neu ddarnau o unrhyw gofnod o'r fath gael eu dangos a, pan ddefnyddir cyfrifiadur i gadw'r cofnod hwnnw, ei gwneud yn ofynnol i'r cofnod gael ei ddangos ar ffurf a fydd yn caniatáu iddo gael ei gludo ymaith; a
- (d) dal gafael ar unrhyw gofnod o'r fath y mae gan y swyddog reswm dros gredu y gall fod yn angenrheidiol fel tystiolaeth mewn achos o dan y Rheoliadau hyn.

Hysbysiadau gorfodi

20.—(1) Os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad gorfodi i'r person hwnnw yn unol â pharagraff (2).

(2) Rhaid i hysbysiad gorfodi—

- (a) datgan ar ba sail y mae Gweinidogion Cymru'n credu bod trosedd wedi ei chyflawni;
- (b) pennu'r mater sy'n cyfansoddi'r drosedd;
- (c) pennu'r hyn y mae'n rhaid i'r person hwnnw beidio â'i wneud, neu'r mesurau y mae'n rhaid, ym marn Gweinidogion Cymru, i'r person hwnnw eu cymryd er mwyn cydymffurfio â'r Rheoliadau hyn;
- (d) ei gwneud yn ofynnol i'r person beidio â chyflawni'r weithred a bennir yn yr hysbysiad, neu gymryd y mesurau a bennir yn yr hysbysiad, neu fesurau sydd o leiaf yn gyfwerth â'r rheiny, o fewn y cyfnod (nad yw'n llai na 14 diwrnod) a bennir yn yr hysbysiad;
- (e) hysbysu'r person am yr hawl i apelio a roddir gan reoliad 21; ac
- (f) hysbysu'r person o fewn pa gyfnod y caniateir i apel o'r fath gael ei gwneud.

(3) Mae unrhyw berson sy'n torri hysbysiad gorfodi neu'n methu â chydymffurfio ag ef yn euog o drosedd.

Apelau yn erbyn hysbysiadau gorfodi

21.—(1) Caiff person apelio i lys ynadon yn erbyn hysbysiad gorfodi os oes gan y person hwnnw reswm dros gredu na ddylai'r hysbysiad fod wedi ei roi.

(2) Caiff person apelio o fewn y cyfnod o un mis sy'n cychwyn gyda'r dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad.

(3) Y weithdrefn a ddilynir yw gwneud cwyn am orchymyn; a bydd Deddf Llysoedd Ynadon 1980(1) yn gymwys i'r achos.

(4) Ar apêl, caiff y llys naill ai ddidymu'r hysbysiad neu ei gadarnhau, ac os bydd yn ei gadarnhau caiff wneud hynny naill ai yn ei ffurf wreiddiol neu gyda pha addasiadau bynnag y mae'r llys yn meddwl eu bod yn briodol.

Hysbysiadau cosb

22.—(1) Os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu bod person wedi cyflawni trosedd o dan y Rheoliadau hyn, caiff Gweinidogion Cymru roi hysbysiad (“hysbysiad cosb”) i'r person hwnnw yn unol â pharagraffau (2) a (3).

(2) Caiff hysbysiad cosb fod am unrhyw swm.

(3) Rhaid i hysbysiad cosb—

- (a) rhoi unrhyw fanylion am amgylchiadau'r drosedd honedig sy'n angenrheidiol i roi gwybodaeth resymol am y drosedd;
- (b) datgan swm y gosb;
- (c) datgan yn ystod pa gyfnod, yn rhinwedd rheoliad 23, na chychwynir achos ynglŷn â'r drosedd;
- (d) datgan i ba berson ac ym mha gyfeiriad y gellir talu'r gosb; ac
- (e) datgan ym mha fodd y caniateir i'r taliad gael ei wneud.

Cyfyngiad ar ddwyn achos am drosedd cosb

23.—(1) Pan fo hysbysiad cosb wedi ei roi i berson—

- (a) ni chaniateir dwyn achos yn erbyn y person hwnnw am y drosedd y mae'r hysbysiad yn ymwneud â hi cyn diwedd y cyfnod o 28 diwrnod sy'n cychwyn ar y dyddiad y rhoddwyd yr hysbysiad; a
- (b) ni chaniateir euogfarnu'r person hwnnw am y drosedd os telir y gosb yn unol â rheoliad 24 cyn diwedd y cyfnod hwnnw.

(1) 1980 p. 43; amnewidiwyd adrannau 51 a 52 gan Ddeddf Llysoedd 2003 (p. 39), adran 47.

(2) Nid yw paragraff (1) yn gymwys os tynnir yr hysbysiad cosb yn ôl yn unol â rheoliad 25.

Talu'r gosb

24.—(1) Rhaid talu unrhyw gosb i Weinidogion Cymru drwy ei hanfon drwy'r post neu drwy unrhyw ddull a bennir yn yr hysbysiad cosb.

(2) Mewn unrhyw achos, bydd tystysgrif yr honnir ei bod wedi ei llofnodi gan Weinidogion Cymru neu ar eu rhan yn datgan bod taliad o gosb wedi ei gael neu heb ei gael erbyn y dyddiad a bennir yn y dystysgrif yn dystiolaeth o'r ffeithiau a ddatgenir.

Tynnu hysbysiad cosb yn ôl

25.—(1) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl os oes gan Weinidogion Cymru reswm dros gredu na ddylai fod wedi ei roi (pa un ai i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb, neu fel arall).

(2) Caniateir i hysbysiad cosb gael ei dynnu'n ôl gan Weinidogion Cymru drwy roi hysbysiad i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb cyn i'r gosb gael ei thalu neu ar ôl i'r gosb gael ei thalu.

(3) Pan dynnir hysbysiad cosb yn ôl, rhaid i Weinidogion Cymru ad-dalu unrhyw gosb a dalwyd o dan yr hysbysiad cosb i'r person a enwyd yn yr hysbysiad cosb o fewn 28 diwrnod, gan gychwyn gyda'r dyddiad yr anfonwyd yr hysbysiad bod yr hysbysiad cosb wedi ei dynnu'n ôl.

Troseddau: darpariaethau eidion Ewropeaidd

26. Mae unrhyw berson sydd—

- (a) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan ddarpariaeth eidion Ewropeaidd; neu
- (b) yn torri unrhyw waharddiad a gynhwysir mewn darpariaeth eidion Ewropeaidd,
- (c) yn euog o drosedd.

Troseddau: darpariaethau moch Ewropeaidd

27.—(1) Mae unrhyw berson sydd—

- (a) yn methu â chydymffurfio ag unrhyw ofyniad o dan ddarpariaeth moch Ewropeaidd; neu
- (b) yn torri unrhyw waharddiad a gynhwysir mewn darpariaeth moch Ewropeaidd,

yn euog o drosedd.

- Penderfyniad 2015/6674/UE sy'n sefydlu fformat cyffredin ar gyfer cyflwyno adroddiadau Aelod-wladwriaeth ar weithredu Cyfarwyddeb 2004/42/EC Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfyngu ar allyriadau cyfansoddion organig anweddol o ganlyniad i ddefnyddio toddyddion organig mewn rhai paentiau a farneisiau a chynhyrchion ailorffen cerbydau
 - Penderfyniad 2015/2119/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer cynhyrchu panelau sy'n seiliedig ar bren
 - Penderfyniad 2016/902/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT), o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor, ar gyfer systemau trin/rheoli dwr gwastraff a nwy gwastraff cyffredin yn y sector cemegol
 - Penderfyniad 2016/1023/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddiwydiannau metalau anfferus
 - Penderfyniad 2017/302/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer magu dofednod neu foch yn ddwys
 - Penderfyniad 2017/1442/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer gweithfeydd ymlosgi mawr
 - Penderfyniad 2017/2117/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyfer cynhyrchu cemegau organig o sylwedd
 - Penderfyniad 2018/1135/UE sy'n sefydlu math, fformat ac amllder y wybodaeth sydd ar gael gan yr Aelod-wladwriaethau at ddibenion adrodd ar weithredu Cyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor ar allyriadau diwydiannol
 - Penderfyniad 2018/1147/UE sy'n sefydlu casgliadau'r technegau gorau sydd ar gael (BAT) ar gyfer trin gwastraff, o dan Gyfarwyddeb 2010/75/UE Senedd Ewrop a'r Cyngor 3
 - Penderfyniad 2018/1522 sy'n gosod fformat cyffredin ar gyfer rhaglenni rheoli llygredd aer cenedlaethol o dan Gyfarwyddeb (UE) 2016/2284 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar leihau gollyngiadau cenedlaethol llygryddion atmosfferig penodol
 - Atodiad 20 i gytundeb yr AEE
2. Yn ogystal, nid yw'n glir o'r datganiad yr effaith sydd gan y Rheoliadau ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a / neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn creu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Gan ei fod yn aneglur o ddatganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 27 Tachwedd 2018 yr effaith y gall y Rheoliadau ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a / neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru, nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi gallu asesu a oes unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	27 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Mae'r Rheoliadau hyn yn cynnwys darpariaethau sy'n dod o fewn meysydd lle y mae cymhwysedd wedi ei ddatganoli; mae'r darpariaethau hyn yn diwygio'r deddfwriaeth a ganlyn.

Deddfwriaeth Ddomestig

- Gorchymyn Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon 2013

Effaith yr OSau mewn perthynas â Chymru:

O ran effaith yr OSau yng Nghymru, mae'n gwneud mân ddiwygiadau technegol i gynllun masnachu allyriadau mewn cysylltiad â nwyon tŷ gwyr.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r OSau (pan fônt yn berthnasol i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU deddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

Diben y diwygiadau

Bydd Deddf Ymadael â'r Undeb Ewropeaidd 2018 yn gosod deddfwriaeth sy'n deillio o'r UE yn ei lle i sicrhau ei bod yn gweithredu'n gywir ac yn effeithlon pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r diwygiadau hyn yn mynd i'r afael â methiannau sy'n deillio o ymadawiad y DU â'r UE. Mae'r offeryn yn diwygio darpariaethau a fydd, er enghraifft, yn dod yn amhriodol neu'n ddibwrpas.

Ar ôl ymadael, ni fyddai cyfraith berthnasol yr UE, os na chaiff ei diwygio, yn gweithredu'n gywir i'r fath raddau fel y gellid bwrw amheuaeth ar y pwerau i barhau i gyflawni swyddogaethau statudol.

Mae'r offeryn hwn yn diwygio'r ddeddfwriaeth berthnasol i sicrhau bod mesurau diogelu a fframweithiau rheoliadol yn cael eu cynnal a'u cadw, ac yn parhau i weithio yn yr un modd pan fydd y DU wedi ymadael â'r UE.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-crc-energy-efficiency-scheme-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Cynllun Effeithlonrwydd Ynni'r Ymrwymiad Lleihau Carbon
(Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 22 Hydref 2018

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	4 Rhagfyr 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	10 Rhagfyr 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur xx
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau i ddeddfwriaeth yn ymwneud â deddfwriaeth Ymrwymiad Lleihau Carbon (CRC) ac, yn benodol, i sicrhau parhad, ar draws y Deyrnas Unedig, ar ôl y diwrnod gadael o esemptiadau sy'n berthnasol yn syth cyn y diwrnod gadael.

Mae Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 27 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith ac i ba raddau y byddai'r Rheoliadau hyn yn deddfu polisi newydd mewn meysydd datganoledig.

Nid yw Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	28 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith [yr UE a ddargedwir] sy'n cael ei diwygio

Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2004

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae'r OS (pan fônt yn berthnasol i Gymru) o fewn cymhwysedd deddfwriaethol, fodd bynnag, o dan yr amgylchiadau eithriadol hyn pan fo gofyn inni ystyried a chywiro nifer digyffelyb o ddarnau deddfwriaeth o fewn amserlen dynn gan ddefnyddio adnoddau cyfyngedig, egwyddor gyffredinol Llywodraeth Cymru yw ein bod yn gofyn i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan ar gyfer nifer mawr o offerynnau statudol.

Diben y diwygiadau

Mae'r Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018 yn rhoi pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wneud penderfyniadau cyfiawnhau ar ffurf rheoliadau ar gyfer dosbarthau a mathau o arferion sy'n ymwneud ag ymbelydredd Ïoneiddio at ddibenion y Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2004

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://beta.parliament.uk/statutory-instruments/v4pTq3qi>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i

Tudalen y pecyn 207

weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

Rheoliadau Pwerau Penderfyniad Cyfiawnhau (Ymadael â'r UE) 2018

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 23 Tachwedd 2018

Sifftio

A fydd angen sifftio yn Senedd y DU?	Na fydd
Gweithdrefn:	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin	Amh
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	w/c 3 Rhagfyr 2018
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	Amh
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur xx
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Amh
Y weithdrefn	Cadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-deddfwriaeth Ty'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU o dan adran 8(1), a pharagraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r rheoliadau hyn yn rhoi pŵer newydd i'r Ysgrifennydd Gwladol a'r Gweinyddiaethau Datganoledig wneud penderfyniadau cyfiawnhau ar ffurf rheoliadau ar gyfer dosbarthau a mathau o arferion sy'n ymwneud ag ymbelydredd ïoneiddio at ddibenion y Cyfiawnhau Arferion sy'n Ymwneud â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio 2004. Ni fydd y pwerau i wneud rheoliadau at y diben hwn bellach ar gael unwaith y bydd Deddf Cymunedau Ewropeaidd 1972 yn cael ei diddymu. Nid yw'r Rheoliadau'n deddfu unrhyw bolisi newydd.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 28 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

DYDDIAD 28 Tachwedd 2018

GAN Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion Anifeiliaid (Archwilio am Weddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion) (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Rhestr o Reoliadau'r UE sy'n cael eu diwygio

- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2017/880
- Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/12
- Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2018/782
- Rheoliad (EC) Rhif 470/2009
- Rheoliad (EC) Rhif 37/2010

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol mewn perthynas â Diogelwch Bwyd. Mae swyddogaethau mewn perthynas â Rheoliad (EC) Rhif 470/2009, Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/12 a Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2018/782 wedi eu rhoi i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig. Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weiniogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau 2018 (y weithdrefn negyddol) yn sicrhau y bydd y fframwaith meddyginiaethau milfeddygol yn parhau i weithio'n effeithiol unwaith y byddwn yn ymadael â'r UE, ac y gallwn barhau i weithredu rhaglen cadw gwyliadwriaeth am weddillion a fydd yn cyflawni'r un amcanion. Mae angen y newidiadau sy'n cael eu gwneud gan yr offeryn er mwyn sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a ddargedwir a'r deddfwriaeth ddomestig sy'n ei gorfodi yn parhau i weithio'n effeithiol.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-veterinary-medicines-and-animals-and-animal-products-examination-of-residues-and-maximum-residues-limits-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Meddyginiaethau Milfeddygol ac Anifeiliaid a Chynhyrchion
Anifeiliaid (Archwilio Gweddillion a Therfynau Uchaf Gweddillion)
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 26 Tachwedd 2018

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	11 Rhagfyr 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	12 Rhagfyr 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur xx
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

Mae'r Rheoliadau hyn yn helpu i sicrhau bod y fframwaith meddyginiaethau milfeddygol yn parhau i weithredu'n effeithiol ar ôl i ni adael yr UE, ac y gall y DU barhau i weithredu rhaglen goruchwyllo gweddillion sy'n cwmpasu'r un amcanion. Gwneir i'r newidiadau a wneir gan y Rheoliadau sicrhau bod deddfwriaeth yr UE a gedwir a'r deddfwriaeth ddomestig sy'n ei gorfodi'n parhau i weithredu'n effeithiol.

Mae'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 28 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cynghorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	29 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018

Y gyfraith sy'n cael ei diwygio

Deddfwriaeth Ddomestig

- Gorchymyn y Gynddaredd (Mewnforio Cŵn, Cathod a Mamaliaid Eraill) 1974 (DU)
- Rheoliadau (CEE) Ffrwythloni Moch yn Artiffisial 1992 (DU)
- Gorchymyn Anifeiliaid (Rheoli ar ôl Mewnforio) 1995 (Cymru, Lloegr a'r Alban)
- Rheoliadau Embryonau Buchol (Casglu, Cynhyrchu a Throsglwyddo) 1995
- Gorchymyn Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol 2011 (Cymru a Lloegr)

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Gwneir y diwygiadau hyn gan yr Ysgrifennydd Gwladol mewn cysylltiad â deddfwriaeth y DU neu Brydain Fawr y mae gan Weinidogion Cymru swyddogaethau gweithredol mewn perthynas â hwy ac mae testun y deddfwriaeth, sef symud anifeiliaid a mesurau iechyd ataliol sy'n ymwneud â symud anifeiliaid mewn cysylltiad â Chymru o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol.

Diben y diwygiadau

Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018 yn gwneud cywiriadau sy'n caniatáu gweithredu deddfwriaeth genedlaethol a domestig ar ôl i'r DU adael yr UE trwy gyfnewid cyfeiriadau lle bo angen, er enghraifft trwy hepgor y diffiniad o "intra-Area trade" a diffinio "masnach genedlaethol" fel "masnach o fewn Prydain Fawr" a thrwy gyfeirio'n briodol at gyfraith yr UE a gedwir, gan ddefnyddio pwerau o dan y Ddeddf Ymadael. Nid yw'r offeryn yn newid polisi.

Mae'r Offeryn Statudol a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-trade-in-animals-and-related-products-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE. Mae hyn yn unol â'r egwyddorion ar gyfer cywiro y cytunwyd arnynt ym mis Mai gan Is-bwyllgor y Cabinet ar Bontio Ewropeaidd.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol
(Diwygio etc.) (Ymadael â'r UE) 2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 27 Hydref 2018

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	11 Rhagfyr 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	13 Rhagfyr 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur xx
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Cynigir bod y Rheoliadau hyn yn cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r Rheoliadau hyn yn gwneud diwygiadau technegol a chywiro i saith offeryn statudol domestig sy'n deillio o'r UE (dau yn gymwys i Loegr yn unig) yn ymwneud â mewnfario anifeiliaid byw, cynhyrchion sy'n dod o anifeiliaid, plasm cenhedlu (semen, ofa ac embryonau) a symud anifeiliaid anwes a cheffylau yn anfasnachol.

Mae'r memorandwm esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Rheoliadau yn cadarnhau bod y diwygiadau yn ymdrin â diffygion yng nghyfraith yr UE a gedwir yn deillio o'r DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd, ac y'u gwneir er

mwyn osgoi unrhyw rwystrau deddfwriaethol i fasnach yn y materion amaethyddol hyn gyda'r UE ar ôl i'r DU adael. Nid yw'r Rheoliadau yn deddfu unrhyw bolisi newydd.

Mae Cyngorwyr Cyfreithiol yn cytuno â'r datganiad a osodwyd gan Lywodraeth Cymru dyddiedig 29 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw Cyngorwyr Cyfreithiol o'r farn bod unrhyw faterion sylweddol yn codi o dan baragraff 8 o'r Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw Cyngorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio am gynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	30 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2018

Cyfraith yr UE a ddargedwir sy'n cael ei diwygio
Protocol 1 i Gytundeb yr AEE

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Nid yw'r OS hwn yn cael unrhyw effaith ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad na chymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Diben y diwygiadau

Diben y diwygiadau yw cywiro diffygion mewn deddfwriaeth sy'n codi wrth i'r DU ymadael â'r Undeb Ewropeaidd mewn perthynas â Phrotocol 1 i Gytundeb yr AEE, trefn a ddefnyddir i roi cyfraith yr UE ar waith ar gyfer, ac o fewn, gwladwriaethau Cymdeithas Masnach Rydd Ewrop yr AEE.

Mae'r OS a'r Memorandwm Esboniadol sy'n mynd gydag ef, ac sy'n nodi effaith pob un o'r diwygiadau, ar gael yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-protocol-1-to-the-eea-agreement-amendment-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran ac ar ran Cymru, am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Nid oes gwahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU o ran y polisi ar gyfer y cywiriad. Felly, byddai gwneud OSau ar wahân yng Nghymru ac yn Lloegr yn arwain at ddyblygu gwaith ac at gymhlethdod diangen i'r llyfr statud. Mae cydsynio i OS ar draws y DU yn sicrhau bod un fframwaith deddfwriaethol ar draws y DU sy'n hybu eglurder a hygyrchedd yn ystod y cyfnod hwn o newid. O dan yr amgylchiadau eithriadol hyn, mae Llywodraeth Cymru yn ystyried ei bod yn briodol i Lywodraeth y DU ddeddfu ar ein rhan yn yr achos hwn.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau Protocol 1 i Gytundeb yr AEE (Diwygio) (Ymadael â'r UE)
2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 29 Tachwedd 2018

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Ty'r Cyffredin	11 Rhagfyr 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys
Dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	18 Rhagfyr 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur xx
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Dim angen

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Ddim yn hysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ty'r Cyffredin	Ddim yn hysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Ddim yn hysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018.

Mae'r offeryn hwn yn gwneud diwygiadau cyfreithiol technegol cyfyngedig i Brotocol 1 i'r Cytundeb AEE, mecanwaith y mae cyfraith yr UE yn cael ei chymhwyso iddo ar hyn o bryd ac yn EFTA yr AEE. Ar ddiwrnod gadael, bydd Protocol 1 yn mudo i'r llyfr statud domestig ac yn dod yn rhan o'r corff newydd o gyfraith ddomestig a elwir yn 'ddeddfwriaeth uniongyrchol yr UE a gedwir' ("RDEUL").

Er mwyn sicrhau bod Protocol 1 yn gweithredu'n iawn ar ôl gadael, mae'r offeryn hwn yn gwneud nifer o ddiwygiadau iddo i egluro bod Protocol 1 yn berthnasol i gyfraith yr UE yn unig, a ymgorfforir yn yr Atodiadau AEE,

sy'n ffurfio rhan o RDEUL; bod unrhyw rwymedigaeth sy'n ddyledus i unrhyw Wladwriaethau'r UE, eu hendidau cyhoeddus, eu hymrwymiaid neu unigolion, neu unrhyw hawl a roddir iddynt, hefyd yn ddyledus i EFTA yr AEE neu ei roi arnynt, eu hasiantaethau cymwys, endidau cyhoeddus, ymgymeriadau neu unigolion; a bod rhai darpariaethau segur yn cael eu dileu.

Mae'r diwygiadau i Brotocol 1 yn egluro bod Protocol 1, gan ei fod yn rhan o gyfraith ddomestig, yn berthnasol i gyfraith yr UE yn unig, wedi'i ymgorffori yn yr Atodiadau AEE, sy'n ffurfio rhan o RDEUL. Mae hyn yn golygu na fydd Protocol 1 yn gosod rhwymedigaethau mwyach ar wladwriaethau neu o fewn gwladwriaethau EFTA, y Comisiwn, Awdurdod Goruchwylio'r AEE neu'r Cydbwyllgor gan nad yw RDEUL yn gallu gorfodi rhwymedigaethau ar unrhyw drydydd parti y tu allan i'r DU.

Mae Cyngorwyr Cyfreithiol yn gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas â datganiad Llywodraeth Cymru dyddiedig 30 Tachwedd 2018 ynghylch effaith y Rheoliadau hyn:

Mae paragraff 10.2 y Memorandwm Esboniadol yn nodi, yn unol â'r Cytundeb Rhynglywodraethol ar Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 ("EUWA"), yr ymgynghorwyd â Llywodraeth Cymru ynghylch y Rheoliadau hyn. Rhoddodd Llywodraeth Cymru ganiatâd i lywodraeth y DU, mewn llythyr gan Mark Drakeford AC dyddiedig 27 Tachwedd 2018. Er gwaethaf y gofyniad i ymgynghori, nid yw datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi pa bwerau deddfwriaethol y Cynulliad neu bwerau gweithredol Gweinidogion Cymru y mae'r offeryn hwn yn effeithio arnynt. Mewn gwirionedd, ymddengys bod yr offeryn yn ymwneud â meysydd nad ydynt wedi eu datganoli. Mae cyngorwyr cyfreithiol yn argymhell y dylid ceisio eglurhad ynghylch pa bwerau datganoledig yr effeithir arnynt.

Er bod datganiad Llywodraeth Cymru yn nodi nad oes unrhyw wahaniaeth rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU ar y polisi ar gyfer cywiro, nid yw'r datganiad yn dangos i ba raddau y mae'r offeryn hwn yn effeithio ar feysydd datganoledig, ac i ba raddau roedd angen caniatâd gan Lywodraeth Cymru. Yr unig beth ddywed y datganiad yw bod caniatâd wedi'i roi am resymau effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y gwelliannau.

Mae'r crynodeb uchod a chynnwys y Memorandwm Esboniadol i'r Rheoliadau hyn yn cadarnhau eu heffaith.

Nid yw'r Cyngorwyr Cyfreithiol yn ystyried bod unrhyw faterion arwyddocaol yn codi o dan baragraff 8 y Memorandwm ar Fil yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) a Sefydlu Fframweithiau Cyffredin mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.

Nid yw'r Cyngorwyr Cyfreithiol wedi nodi unrhyw reswm cyfreithiol i geisio cynnig cydsyniad o dan Reol Sefydlog 30A.10 mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn.



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

DATGANIAD YSGRIFENEDIG GAN LYWODRAETH CYMRU

TEITL	Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018
DYDDIAD	30 Tachwedd 2018
GAN	Julie James AC, Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip

Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc) (Ymadael â'r UE) 2018

Mae Rheoliadau 2018 yn diwygio ac yn dirymu deddfwriaeth yr UE sy'n uniongyrchol gymwysadwy ym maes y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.

Offerynnau Ewropeaidd sy'n Uniongyrchol Gymwysadwy a ddiwygir gan Reoliadau 2018.

1. Rheoliad (EU) Rhif 1380/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
2. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 sy'n sefydlu system reoli ar gyfer yr Undeb er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
3. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 404/2011 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1224/2009 sy'n sefydlu system reoli ar gyfer y Gymuned er mwyn sicrhau y cydymffurfir â rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
4. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1936/2001 sy'n pennu mesurau rheoli sy'n gymwys i bysgota am stociau penodol o bysgod mudol iawn.
5. Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 724/2010 sy'n pennu rheolau manwl ar gau pysgodfeydd penodol ym Môr y Gogledd a Skagerrak ar sail gwybodaeth amser real.
6. Rheoliad Gweithredu'r Comisiwn (EU) Rhif 2017/218 ar gofrestr fflyd bysgota'r Undeb.
7. Rheoliad (UE) Rhif 2017/2403 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar reoli fflydoedd bysgota allanol mewn ffordd gynaliadwy.
8. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1005/2008 sy'n sefydlu system ar gyfer y Gymuned er mwyn rhwystro, atal a rhoi diwedd ar bysgota anghyfreithlon, bysgota heb roi gwybod amdano a physgota heb ei reoleiddio.
9. Rheoliad y Comisiwn (EU) Rhif 468/2010 sy'n sefydlu rhestr yr UE o gychod sy'n bysgota'n anghyfreithlon, heb roi gwybod amdano a heb ei reoleiddio.
10. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2014/170/EU sy'n sefydlu rhestr o drydydd gwledydd nad ydynt yn cydweithredu i wrthsefyll bysgota anghyfreithlon, bysgota na roddwyd gwybod amdano a physgota heb ei reoleiddio, yn unol â Rheoliad (EC) Rhif 1005/2008 sy'n sefydlu system ar gyfer y Gymuned er mwyn rhwystro, atal a rhoi

diwedd ar bysgota anghyfreithlon, pysgota heb roi gwybod amdano a physgota heb ei reoleiddio.

11. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1010/2009 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1005/2008 sy'n sefydlu system ar gyfer y Gymuned er mwyn rhwystro, atal a rhoi diwedd ar bysgota anghyfreithlon, pysgota heb roi gwybod amdano a physgota heb ei reoleiddio.
12. Rheoliad (EU) Rhif 2016/2012 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar fesurau penodol er mwyn diogelu stociau pysgod mewn perthynas â gwledydd sy'n caniatáu pysgota nad yw'n gynaliadwy.
13. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1100/2007 sy'n sefydlu mesurau ar gyfer adfer y stoc o Lyswennodd Ewropeaidd.
14. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 1954/2003 ar reoli'r ymdrech bysgota sy'n gysylltiedig ag ardaloedd ac adnoddau pysgota penodol y Gymuned
15. Rheoliad (EU) 2017/1004 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar sefydlu fframwaith i'r Undeb ar gyfer casglu, rheoli a defnyddio data yn y sector pysgodfeydd ac ar gyfer cefnogi cyngor gwyddonol am y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
16. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 2016/1251 sy'n mabwysiadu rhaglen amlflwydd i'r Undeb ar gyfer casglu, rheoli a defnyddio data yn y sector pysgodfeydd a dyframaeth ar gyfer y cyfnod 2017-2019.
17. Rheoliad (EC) Rhif 218/2009 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar gyflwyno ystadegau pwysau byw dalfeydd gan Aelod-wladwriaethau sy'n pysgota yn ardal dde-ddwyreiniol Môr Iwerydd.
18. Rheoliad (UE) Rhif 1379/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar drefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth.
19. Rheoliad y Cyngor (EEC) Rhif 2136/89 sy'n pennu safonau marchnata cyffredin ar gyfer sardîns cadw a disgrifiadau masnach ar gyfer sardîns cadw a chynhyrchion tebyg i sardîns
20. Rheoliad y Cyngor (EEC) 1536/92 sy'n pennu safonau marchnata cyffredin ar gyfer tiwna a bonito cadw.
21. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) Rhif 1418/2013 sy'n ymwneud â chynlluniau cynhyrchu a marchnata yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 1379/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar drefniadaeth gyffredin ar gyfer marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth.
22. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 1419/2013 sy'n ymwneud â chydabod sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol, estyn rheolau sefydliadau cynhyrchwyr a sefydliadau cydadrannol a chyhoeddi prisiau sbarduno fel y darperir ar eu cyfer gan Rheoliad (UE) Rhif 1379/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar drefniadaeth gyffredin ar gyfer y marchnadoedd mewn cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth.
23. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 734/2008 ar warchod systemau morol agored i niwed yn y cefnforoedd rhag effeithiau andwyol offer pysgota a ddefnyddir ar wely'r môr.
24. Rheoliad (EU) 2016/2336 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n pennu amodau penodol ar gyfer pysgota am stociau'r dyfnfor yn ardal dde-ddwyreiniol Môr Iwerydd a darpariaethau ar gyfer pysgota yn nyfroedd rhyngwladol ardal dde-ddwyreiniol Môr Iwerydd
25. Rheoliad (EC) Rhif 2017/1130 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n diffinio nodweddion cychod pysgota.

26. Penderfyniad y Comisiwn 95/84/EC ynglŷn â gweithredu'r Atodiad i Reoliad y Cyngor Rhif 2930/86 sy'n diffinio nodweddion cychod pysgota.
27. Rheoliad y Comisiwn (EEC) Rhif 954/87 ar samplu dalfeydd er mwyn penderfynu ar ganran y rhywogaethau targed a'r rhywogaethau a warchodir wrth bysgota â rhwydi mân-rwylllog.
28. Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
29. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2015/288 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop o ran y cyfnodau amser a'r dyddiadau ar gyfer peidio â derbyn ceisiadau.
30. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2015/531 sy'n ategu Rheoliad (UE) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor drwy nodi'r costau sy'n gymwys i gael cymorth o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop er mwyn gwella hylendid, iechyd, diogelwch ac amodau gweithio pysgotwyr, gwarchod ac adfer bioamrywiaeth ac ecosystemau morol, lliniaru mewn perthynas â'r newid yn yr hinsawdd a gwneud cychod pysgota yn fwy effeithlon o ran ynni.
31. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn C(2015) 8628 ar gymeradwyo'r rhaglen weithredol "European Maritime and Fisheries Fund – Operational Programme for the United Kingdom" ar gyfer cymorth o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop yn y DU.

Dirymiadau a nodir yn Rheoliadau 2018

1. Rheoliad y Comisiwn (EEC) 2166/83 sy'n sefydlu system drwyddedu ar gyfer pysgodfeydd penodol mewn ardal i'r gogledd o'r Alban (ardal Shetland).
2. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 847/96 sy'n cyflwyno amodau ychwanegol ar gyfer rheoli cyfanswm y dalfeydd a ganiateir a chwotâu o'r naill flwyddyn i'r llall.
3. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 882/2003 sy'n sefydlu system tracio a gwirio tiwna.
4. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1415/2004 sy'n pennu'r ymdrech bysgota flynyddol uchaf ar gyfer ardaloedd pysgota a physgodfeydd penodol.
5. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 2103/2004 sy'n ymwneud â throsglwyddo data ar bysgodfeydd penodol mewn dyfroedd gorllewinol a'r Môr Baltig.
6. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 768/2005 sy'n sefydlu Asiantaeth Rheoli Pysgodfeydd ar gyfer y Gymuned.
7. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 764/2006 ar ddiwedd y Cytundeb Partneriaeth Pysgodfeydd rhwng y Gymuned Ewropeaidd a Theyrnas Moroco.
8. Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 509/2007 sy'n sefydlu cynllun amlflwydd ar gyfer defnyddio'r stoc lledod yn y Sianel Orllewinol mewn ffordd gynaliadwy.
9. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 665/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer cymhwys Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 199/2008 sy'n ymwneud â sefydlu fframwaith i'r Gymuned ar gyfer casglu, rheoli a defnyddio data yn y sector pysgodfeydd a chefnogaeth ar gyfer cyngor gwyddonol am y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin.
10. Rheoliad y Comisiwn (CE) Rhif 1078/2008 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 861/2006.
11. Rheoliad y Comisiwn (EC) Rhif 201/2010 sy'n pennu rheolau manwl ar gyfer gweithredu Rheoliad y Cyngor (EC) Rhif 1006/208 sy'n ymwneud ag awdurdodi gweithgareddau pysgota cychod pysgota'r Gymuned y tu allan i ddyfroedd y Gymuned ac â mynediad cychod trydydd gwledydd i ddyfroedd y Gymuned.

12. Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 779/2011 sy'n ymwneud â dyrannu'r cyfleoedd pysgota o dan y Protocol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Theyrnas Morocco.
13. Rheoliad (UE) Rhif 1343/2011 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar ddarpariaethau penodol ar gyfer pysgota yn y Comisiwn Pysgodfeydd Cyffredinol ar gyfer ardal Cytundeb Môr y Canoldir.
14. Rheoliad y Comisiwn (UE) Rhif 1270/2013 ar ddyrannu cyfleoedd pysgota o dan y Protocol rhwng yr Undeb Ewropeaidd a Theyrnas Morocco.
15. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2014/372/EU sy'n pennu'r dadansoddiad blynyddol fesul Aelod-wladwriaeth o gyfanswm adnoddau Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sydd ar gael yn y fframwaith cyd-reoli ar gyfer y cyfnod 2014-2020.
16. Penderfyniad Gweithredu gan y Comisiwn 2014/372/EU sy'n nodi blaenoriaethau'r Undeb ar gyfer polisi gorfodi a rheoli yn fframwaith Cronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
17. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) 763/2014 sy'n pennu rheolau ar gyfer cymhwyso Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop o ran nodweddion technegol gwybodaeth a mesurau cyhoedduswydd a chyfarwyddiadau ar gyfer creu arwyddlun yr Undeb.
18. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (UE) Rhif 771/2014 sy'n pennu rheolau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n ymwneud â'r model ar gyfer rhaglenni gweithredol, strwythur y cynlluniau ar gyfer digolledu gweithredwyr am gostau ychwanegol a ysgwyddir ganddynt wrth bysgota, ffermio, prosesu a marchnata cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth penodol o'r ardaloedd pellaf, y model ar gyfer trosglwyddo data, cyd-destun yr adroddiadau gwerthuso ex ante a'r gofynion sylfaenol ar gyfer y cynllun gwerthuso sydd i'w gyflwyno o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
19. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 902/2014 sy'n diwygio Rheoliad y Cyngor (EC) 1415/2004 sy'n ymwneud ag addasu ar gyfer y Deyrnas Unedig yr ymdrech bysgota flynyddol uchaf ar gyfer ardaloedd pysgota penodol.
20. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 1014/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n ymwneud â chynnwys a chreu system fonitro a gwerthuso gyffredin ar gyfer y gweithrediadau a ariennir o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
21. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) Rhif 1046/2014 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n ymwneud â'r meini prawf ar gyfer cyfrifo'r costau ychwanegol a ysgwyddir gan weithredwyr wrth bysgota, ffermio, prosesu a marchnata cynhyrchion pysgodfeydd a dyframaeth penodol o'r ardaloedd pellaf.
22. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 1242/2014 sy'n pennu rheolau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n ymwneud â chyflwyno data cronol perthnasol ar weithrediadau.
23. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 1243/2014 sy'n pennu rheolau yn unol â Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop sy'n ymwneud â'r wybodaeth sydd i'w hanfon gan Aelod-wladwriaethau, yn ogystal ag ar anghenion o ran data a synergedd rhwng ffynonellau data posibl.

24. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn (EU) Rhif 1362/2014 sy'n pennu rheolau ar weithdrefn symlach ar gyfer cymeradwyo diwygiadau penodol i raglenni gweithredol sy'n cael eu hariannu o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop a rheolau sy'n ymwneud â fformat a sut i gyflwyno'r adroddiadau blynyddol ar weithredu'r rhaglenni hynny.
25. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2015/852 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor sy'n ymwneud â'r achosion o beidio â chydymffurfio ac â'r achosion difrifol o beidio â chydymffurfio â rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin a all arwain at ymyrryd â therfyn amser ar gyfer talu neu at atal taliadau o dan Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
26. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2015/1930 sy'n ategu Rheoliad (EU) Rhif 508/2014 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop o ran y meini prawf ar gyfer cadarnhau lefel y cywiriadau ariannol ac ar gyfer defnyddio cywiriadau ariannol cyfradd safonol.
27. Rheoliad Dirprwyedig y Comisiwn (EU) 2015/1930 sy'n diwygio Rheoliad Dirprwyedig (EU) Rhif 508/2014 mewn perthynas â'r cyfnod pan na fydd modd cyflwyno ceisiadau am gymorth o Gronfa'r Môr a Physgodfeydd Ewrop.
28. Rheoliad Gweithredu gan y Comisiwn 2016/1701 sy'n pennu rheolau ar y fformat ar gyfer cyflwyno cynlluniau gwaith ar gyfer casglu data yn y sectorau pysgodfeydd a dyframaeth.

Unrhyw effaith y gall yr OS ei chael ar gymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad a/neu ar gymhwysedd gweithredol Gweinidogion Cymru

Mae gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru gymhwysedd deddfwriaethol ar gyfer rheoli pysgodfeydd mewn perthynas â Chymru (sy'n cynnwys y môr tiriogaethol allan mor bell allan â 12 milltir forol). Mae gan Weinidogion Cymru gymhwysedd gweithredol ar gyfer rheoli pysgodfeydd ar draws Cymru, Parth Cymru a chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i'r Parth hwnnw.

Yn achos y rhan fwyaf o'r swyddogaethau o dan Reoliadau 2018, Gweinidogion Cymru fydd y 'weinyddiaeth pysgodfeydd' ar gyfer Cymru, Parth Cymru a chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i'r Parth hwnnw.

Fodd bynnag, mae Rheoliadau 2018 yn trosglwyddo swyddogaethau cyfyngedig i'r Ysgrifennydd Gwladol yn unig, mewn meysydd lle'r ystyriwyd bod angen cadw system ar gyfer y DU gyfan, megis Cofrestr Fflyd Bysgota'r Deyrnas Unedig, y Gofrestr o Gychod Pysgota'r DU a Chofrestr y DU ar gyfer Pysgota Anghyfreithlon, Pysgota Heb Roi Gwybod amdano a Physgota Heb ei Reoleiddio.

Mae swyddogaethau a drosglwyddir i'r Ysgrifennydd Gwladol yn gyfystyr â swyddogaethau un o Weinidogion y Goron at ddibenion Atodlen 7B i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006. Pe bai'r Cynulliad yn cyflwyno Bil yn y dyfodol i geisio dileu neu addasu'r swyddogaethau hyn, gallai hynny olygu y bydd gofyn ymgynghori â Llywodraeth y DU.

Diben y diwygiadau

Mae'r OS hwn, sy'n dilyn y weithdrefn negyddol, yn mynd i'r afael â methiannau cyfraith yr UE sydd wedi'i dargadw i weithredu'n effeithiol a hefyd â diffygion eraill sy'n deillio o'r ffaith bod y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2018 yn gwneud nifer o gywiriadau i gyfraith yr UE a ddargedwir. Mae angen gwneud y cywiriadau hynny er mwyn cadw'r ddeddfwriaeth sy'n sail i'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin. Bydd yn sicrhau y bydd rheolau sydd yn y gyfres o ddeddfwriaeth yr UE sy'n ymwneud â'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin yn gallu parhau i weithio ar draws y DU unwaith y bydd y DU yn ymadael â'r UE.

Mae Rheoliadau 2018 yn gwneud y nifer lleiaf o gywiriadau technegol sydd eu hangen er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin, ac sydd eu hangen er mwyn sicrhau bod y rheolau sydd yn y Polisi hwnnw yn parhau i weithio'n effeithiol, fel y bo pysgota yn nyfroedd y DU yn parhau i gael ei reoleiddio mewn ffordd gynaliadwy. Mae'r rheoliadau hyn yn gosod rheolau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ar gychod y DU pa le bynnag y maent, yn amodol ar reolau gwahanol sy'n deillio o gytundebau rhyngwladol, ac ar bob cwch yn nyfroedd y DU.

Nid oes unrhyw newidiadau o sylwedd yn cael eu gwneud i effaith y Polisi Pysgodfeydd Cyffredin ac ni ddisgwylir unrhyw newid i'r ffordd y mae pysgodfeydd yn ymgymryd â'u gweithgareddau. Bydd y rhan fwyaf o'r swyddogaethau a gyflawnir gan gyrff yr UE ar hyn o bryd yn cael eu cyflawni gan y gweinyddiaethau pysgodfeydd, ac yn achos Cymru, Parth Cymru a chychod pysgota o Gymru y tu hwnt i'r Parth hwnnw, Gweinidogion Cymru fydd y weinyddiaeth honno.

Mae Rheoliadau 2018 a'r Memorandwm Esboniadol sy'n gysylltiedig ag ef, sy'n nodi effaith y diwygiadau, i'w gweld yma: <https://www.gov.uk/eu-withdrawal-act-2018-statutory-instruments/the-common-fisheries-policy-amendment-etc-eu-exit-regulations-2018>

Pam y rhoddwyd cydsyniad

Rhoddwyd cydsyniad i Lywodraeth y DU wneud y cywiriadau hyn o ran, ac ar ran, Cymru am resymau'n ymwneud ag effeithlonrwydd, hwylustod ac oherwydd natur dechnegol y diwygiadau. Mae'r diwygiadau wedi cael eu hystyried yn llawn; ac nid oes unrhyw wahaniaeth o ran polisi. Diben y diwygiadau hyn yw sicrhau bod y llyfr statud yn parhau i weithio ar ôl i'r DU ymadael â'r UE.

**GWEINIDOGION Y DU SY'N GWEITHIO MEWN MEYSYDD
DATGANOLEDIG**

**Rheoliadau'r Polisi Pysgodfeydd Cyffredin (Diwygio etc.) (Ymadael â'r
UE) 2018**

Dyddiad gosod yn Senedd y DU: 27 Tachwedd 2018

Sifftio

A fydd angen eu sifftio yn Senedd y DU?	Bydd
Gweithdrefn:	Negyddol arfaethedig
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Ewropeaidd Tŷ'r Cyffredin	11 Rhagfyr 2018
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys
Y dyddiad y daw'r cyfnod sifftio i ben yn Senedd y DU	13 Rhagfyr 2018
Datganiad ysgrifenedig o dan Reol Sefydlog 30C:	Papur xx
Memorandwm Cydsyniad Offeryn Statudol o dan Reol Sefydlog 30A (oherwydd ei fod yn diwygio deddfwriaeth sylfaenol)	Nid yw'n ofynnol

Gweithdrefn graffu

Canlyniad y broses sifftio	Anhysbys
Y weithdrefn	Negyddol neu Gadarnhaol
Dyddiad trafod gan y Cyd-bwyllgor ar Offerynnau Statudol	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Offerynnau Statudol Tŷ'r Cyffredin	Anhysbys
Dyddiad trafod gan Bwyllgor Craffu ar Is-ddeddfwriaeth Tŷ'r Arglwyddi	Anhysbys

Sylwadau

Bwriedir i'r Rheoliadau hyn gael eu gwneud gan Lywodraeth y DU yn unol ag adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, a pharagraff 21 o Atodlen 7 i'r Ddeddf.

